Tyfu i fyny

Cysyniadau: **Helpu a meddwl am eraill, dysgu o brofiad, parchu.**

Amcan: **Dangos i'r plant fel rydym yn tyfu i fyny'n gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol.**

Cyfarpar: **Dim.**

Cyflwyniad:

● Holi'r plant hŷn i ddechrau am yr hyn y maen nhw'n gallu ei wneud rŵan nad oedden nhw pan oedden nhw'n ieuengach.

● Dyma rai syniadau:

● Roeddwn i ofn yn y tywyllwch ond rŵan mi ydw i'n fwy dewr. Erstalwm dim ond tabl dau oeddwn i'n medru ddweud ond mi ydw i'n gwybod y tablau i gyd erbyn hyn.

● Yn y pwll nofio roeddwn i'n gwisgo rhwymynnau breichiau ond rŵan mi alla i nofio hebddyn nhw.

● Doeddwn i ddim yn gallu sillafu pan oeddwn i'n fach ond mi ydw i dipyn bach gwell erbyn hyn!

● Dewis plentyn o bob dosbarth i ddod allan a sefyll wrth ochrau'i gilydd er mwyn gweld fel maen nhw wedi tyfu'n gorfforol.

● Ond mae yna ffordd arall o dyfu i fyny. Dyma atebion rhai plant.

Sioned:

Pan oeddwn i'n ferch fach roeddwn i, meddai Mam, yn mynnu cael pob dim i mi fy hun. Doeddwn i ddim yn malio am neb arall. Fi ... fi ... fi oedd hi, meddai mam. Y fi oedd eisiau eistedd wrth y bwrdd wrth ochr Dad bob tro. Fi oedd i gael bwyd gyntaf. Ond erbyn hyn mi ydw i'n gadael i Jo fy mrawd bach gael y bwyd gyntaf. Ac os na chaiff o'r

bwyd gyntaf mae o'n pwdu. Dyma fi'n dweud wrth Mam fod Jo wedi pwdu. A dyma Mam yn dweud, 'Felly oeddet tithau'n union. Llyncu mul a chau bwyta.'

Elan:
Pan oeddwn i'n hogan fach mi fyddwn i'n gwylltio'n gacwn os na chawn i fy ffordd fy hun. Pan oeddwn i tua pedair oed a Mam a Dad a'n chwaer fawr yn cerdded ar y stryd dyma fi'n dechrau strancio am mod i eisiau beic pinc oedd yn ffenestr y siop. Mi wnaeth 'na hen ddynes ddod heibio a minnau ar lawr yn cicio a dyma hi'n dweud rhywbeth fel 'Beth sydd, pam wyt ti'n crio?' A dyma fi'n codi ar fy nhraed a rhoi cic iddi yn ei choes. Mi ges i andros o ffrae gan Dad ac mi fuo'n rhaid i mi ddweud sori wrthi. Ar ôl hynny mi ydw i bob amser eisiau helpu pobl mewn oed. Pan ydw i'n meddwl am beth ddigwyddodd mae gen i gywilydd mawr. Mae gen i gywilydd wrth sgwennu'r stori y munud yma.

Arwyn:
Mi ydw i'n cofio ar y fferm adra ac mi oedd gynnon ni gi – ci defaid. Roedd o'n ufudd i Dad bob tro ond pan oeddwn i'n galw arno fo roedd o'n rhedeg yn wyllt. Un diwrnod wnaeth o ddim gwrando a dyma fo'n dod ata i a dyma fi'n ei daro fo ar ei geg. Mi redodd i ffwrdd. A dyma Dad yn gofyn, 'Be wyt ti wedi wneud i'r ci 'ma?'

'Dim byd,' medda fi, 'wir yr.'

Ond fuaswn i byth yn gwneud peth fel 'na eto. Byth.

Trafodaeth bellach:

● Faint ohonoch chi sydd wedi cael profiadau tebyg i rai Sioned, Elan ac Arwyn? Ydi'r digwyddiadau yn codi cywilydd arnoch chi? Pam? Felly nid yn unig rydym ni'n tyfu'n gorfforol ond hefyd yn emosiynol.

● Yn hytrach na meddwl amdanom ni'n hunain mi ydyn ni'n meddwl sut mae pobl eraill yn teimlo fel y wraig gafodd gic gan Elan, neu Sioned yn pwdu a'r ci defaid gafodd ei daro gan Arwyn.

Dyfyniad o'r Beibl:
Meddyliwch am bobl eraill gyntaf, yn lle dim ond meddwl amdanoch chi'ch hunain. Philipiaid 2:4 beibl.net

Emyn: Anfonodd Iesu fi: Canu Clod 14

Munud i feddwl:
Wrth dyfu i fyny rydym yn sylweddoli bod yna bobl eraill yn y byd.

Gweddi:
O Dduw, wrth i mi dyfu i fyny mi hoffwn i fod yn garedig a dysgu caru pawb. Amen.